Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(139)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Pysgodfeydd a Morol Cymru (30 munud)**

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad Annibynnol ar y Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Adroddiad Cyntaf (30 munud)**

**6 Dadl Cyfnod 3 ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (90 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y

mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

1. Mynediad i gyfarfodydd cyngor a gwybodaeth y cyngor
18, 1, 2, 3, 58, 8, 59
2. Aelodau o'r Comisiwn Ffiniau
10

3. Technegol
19, 46, 47, 49, 50

4. Adolygiadau etholiadol
20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 48, 57

5. Adolygiadau o gyrff cymwys
11, 12, 13, 14, 17

6. Taliadau i Aelodau Llywyddol
51, 52, 56

7. Biliau preifat
53

8. Pwyllgor gwasanaethau democrataidd
4

9. Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaethiaid gwasanaethau cyflogedig
54, 9, 15*, 55

10.Adroddiadau Panel Taliadau Annibynnol
16

11. Etholiadau awdurdod lleol
5, 6, 7
* Tynnwyd y gwelliant hwn yn ol.

**Dogfennau Ategol**
Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau
Grwpio Gwelliannau

**7 Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47 (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:

**8 Cynnig i ethol aelod i bwyllgor (5 munud)**

**NDM 5270 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ken Skates (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn lle Mark Drakeford (Labour).

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 19 Mehefin 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mehefin 2013 i'w hateb ar 18 Mehefin 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i gefnogi Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig? OAQ(4)1132(FM)

2. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i'r clefyd coed ynn? OAQ(4)1138(FM)

3. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amseroedd aros ar gyfer triniaeth mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys? OAQ(4)1123(FM)

4. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau dechrau adeiladu tai yng Nghymru? OAQ(4)1124(FM)

5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl gydag awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1127(FM)

6. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn adolygu'r cynnydd a fu o ran cyflawni yng nghyswllt amseroedd aros i gleifion canser? OAQ(4)1130(FM)

7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1133(FM)

8. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? OAQ(4)1131(FM)W

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y broses apelio ar gyfer Tribiwnlysoedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? OAQ(4)1125(FM)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltiadau Cymru â Cuba? OAQ(4)1122(FM)

**11. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran gweithio â'i hasiantaethau partner i fynd i'r afael â cham-drin domestig? OAQ(4)1135(FM)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad y cyhoedd at ddeintyddion y GIG ym Mhowys? OAQ(4)1137(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa ymateb a gafodd y Prif Weinidog i'w gais i sefydlu Confensiwn i drafod dyfodol cyfansoddiadol y DU? OAQ(4)1134(FM)W

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog mewnfuddsoddiad i Ogledd Cymru? OAQ(4)1126(FM)

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hybu pynciau 'STEM' yng Nghymru? OAQ(4)1128(FM)